

Llwybrau Gyrfa

Pecyn Gwaith i Reolwyr

Llwybr Gyrfa yw pan fydd gweithiwr yn cael cymorth i ddatblygu'r sgiliau, y profiad a/neu'r cymwysterau penodol sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni rôl.

Mae gan bob rôl o fewn y cyngor set o sgiliau, gwybodaeth, profiad a/neu gymwysterau yr ystyrir eu bod yn hanfodol er mwyn cyflawni rôl. Os yw rheolwr naill ai'n cael anawsterau recriwtio oherwydd diffyg ymgeiswyr sydd â'r holl feini prawf hanfodol, neu lle nodir cyfle datblygu i 'feithrin ein staff', gellir defnyddio Llwybr Gyrfa.

Egwyddorion allweddol Llwybr Gyrfa yw:

- Ceir swydd-ddisgrifiad Lefel Mynediad gyda graddfa wedi'i gwerthuso
- Mae swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen gyda graddfa wedi'i gwerthuso
- Rhaid i'r Llwybr Gyrfa ymgorffori **pob** graddfa rhwng Lefelau Mynediad a Gorffen, gan nodi meini prawf clir o beth i'w wneud i symud ymlaen i bob graddfa
- Rhaid i reolwyr fod yn glir a ydynt yn ddelfrydol yn chwilio am rywun i ddechrau ar y brig, neu ar waelod y Llwybr

Terminoleg

Lefel Mynediad = y swydd-ddisgrifiad ar ddechrau'r Llwybr Gyrfa, y raddfa isaf o fewn y Llwybr

Lefel Gorffen = y swydd-ddisgrifiad ar ben draw'r Llwybr Gyrfa, y raddfa uchaf o fewn y Llwybr

Darparwr Dysgu = sefydliad addysgol fel Coleg neu Brifysgol, rhywun a fydd yn darparu cymhwyster a hyfforddiant.

Fframwaith = math o gymhwyster, fel arfer yn rhad ac am ddim. Dysgu yn seiliedig ar waith yn bennaf, arferwyd galw'r math hwn o gymhwyster (ac yn aml o hyd) yn Brentisiaeth. Fodd bynnag, mae'r cymwysterau hyn ar gael i staff presennol o unrhyw oedran yn wahanol i gynlluniau prentisiaeth hanesyddol.

Modiwl = mewn cymhwyster Fframwaith, bydd cymysgedd o bynciau gorfodol a gwirfoddol i fynd i'r afael â nhw. Gelwir y pynciau hyn yn fodiwlau e.e. mae gan Fframwaith Adnoddau Dynol Lefel 5 bwnc/modiwl o fewn hyn o'r enw 'Deall Cyfraith Cyflogaeth' – mae modiwlau gwahanol yn cael eu cwblhau i basio'r cymhwyster.

Creu Llwybr Gyrfa

Wrth weithredu Llwybr Gyrfa, byddwch yn creu tair dogfen; swydd-ddisgrifiad Lefel Mynediad, swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen, a dogfen Llwybr Gyrfa.

Bydd gan y swydd-ddisgrifiadau Lefel Mynediad a Lefel Gorffen raddfa wedi'i gwerthuso i bennu'r ystod cyflog, ond bydd y Llwybr Gyrfa yn pontio'r bwloch rhwng y rhain, gan gwmpasu unrhyw raddfeydd rhyngddynt, ac nid oes angen gwerthuso'r graddfeydd 'canol' hyn.

Er enghraifft, mae gan reolwr swydd-ddisgrifiad Lefel Mynediad wedi'i werthuso ar raddfa 2, a swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen wedi'i werthuso ar raddfa 6. Felly, bydd y Llwybr yn nodi'r meini prawf sy'n ofynnol ar gyfer graddfeydd 2, 3, 4, 5 a 6, ond dim ond graddfa 2 a graddfa 6 fydd yn mynd drwy'r Broses Gwerthuso Swyddi.

Yn aml, mae'r swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen eisoes wedi'i werthuso, gan mai dyma'r swydd wag y mae'r Llwybr Gyrfa yn anelu at ei llenwi.

Cam 1 – Y ffocws:

Penderfynu a ydych yn canolbwyntio ar Lefel Mynediad neu Lefel Gorffen ar gyfer eich Llwybr Gyrfa.

Fel arfer, datblygir Llwybr Gyrfa oherwydd naill ai;

- mae swydd wag wedi codi a hoffai'r rheolwr ddefnyddio'r cyfle i feithrin rhywun i'r rôl
- mae'r rheolwr yn ei chael hi'n anodd recriwtio/cadw rhywun mewn swydd arbenigol, ac felly byddai'n derbyn rhywun sydd angen rhywfaint o ddatblygiad

Mae hyn yn golygu bod dau ffocws gwahanol – lle rydych naill ai'n chwilio'n benodol am rywun sy'n bodloni'r Lefel Mynediad, **neu'r** meini prawf Lefel Gorffen. Mae'n bwysig bod yn glir o'r dechrau yr hyn yr ydych yn chwilio amdano.

Targedu Lefel **Mynediad**

Mae'r Llwybr Gyrfa hwn wedi'i anelu'n benodol at unigolion nad oes ganddynt y cymwysterau, y profiad a/neu'r sgiliau i gamu'n syth i'r swydd-ddisgrifiad cyflog uwch lefel gorffen. Yn hytrach, diben y Llwybr Gyrfa yw targedu'r rhai sy'n bodloni'r gofynion lefel mynediad a darparu'r cymorth er mwyn iddynt gyrraedd y rôl lefel gorffen.

Targedu Lefel **Gorffen**

Defnyddir hwn fel arfer ar gyfer rolau mwy arbenigol, fel Syrfewyr a Phenseiri. Cydnabyddir y gall fod yn anodd dod o hyd i unigolion sydd â'r cymwysterau a'r profiad penodol sydd eu hangen ar rai proffesiynau. Y nod yw recriwtio rhywun sy'n bodloni'r meini prawf lefel gorffen a bydd unigolion sy'n bodloni'r meini prawf cyflog uchel yn cael blaenoriaeth. Fodd bynnag, os na fydd ymgeisydd addas yn bodloni'r holl feini prawf cyflog uwch lefel gorffen, mae'r llwybr gyrfa yn darparu cynllun datblygu ar gyfer unigolion sy'n bodloni meini prawf is.

Cam 2 – Cymhwyster:

Penderfynu a oes cymhwyster ar gael i gefnogi'r Llwybr.

Rydym yn ceisio defnyddio Fframweithiau lle bynnag y bo modd gan nad oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r rhain yn gyffredinol, ac maent yn gymwysterau cyfannol sy'n cyfuno dysgu academaidd a chymhwysedd ymarferol. Yn draddodiadol, maent wedi cael eu galw'n Brentisiaethau, ac efallai y bydd colegau'n dal i ddefnyddio'r derminoleg hon. Fodd bynnag, mae'r cymwysterau ar gael i staff presennol yn ogystal â dechreuwyd o'r newydd, ac maent yn agored i unrhyw oedran.

Cyfrifoldeb y rheolwyr yw cysylltu â'r Darparwr Dysgu a dod o hyd i'r cymhwyster cywir ar eu cyfer. Mae'r cyrsiau sydd ar gael fel arfer wedi'u rhestru ar eu gwefan, ond gallwch hefyd gysylltu â nhw i ofyn pa gyrsiau sydd ganddynt y teimlant fyddai'n addas i'r rôl. Maent fel arfer yn hapus iawn i drafod hyn a dod o hyd i ateb a fydd o fudd i bawb sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, cysylltwch ag Adnoddau Dynol os ydych yn ansicr a hoffech drafod ymhellach.

Isod ceir dolenni i'r Darparwr Dysgu rydym yn tueddu i'w defnyddio:

Darparwr Dysgu	Defnyddir gan:
Coleg Llandrillo Menai	CSDd i gyd
Coleg Cambria	CSDd i gyd
Babcock International	Gwasanaethau Hamdden
Progression Training (arbenigo mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol)	Gwasanaethau Cymorth Cymunedau

Argymhellir eich bod yn siarad â'r Darparwr Dysgu i sicrhau bod y cymhwyster yn iawn ar gyfer y rôl. Gall y Darparwr Dysgu eich cefnogi i sicrhau bod y modiwlau y maent yn eu cwblhau ar gyfer eu cymhwyster yn briodol ar gyfer eich maes gwaith, a gallwch hyd yn oed benderfynu pa fodiwlau sy'n cael eu cwblhau mewn llawer o achosion. Mae'r Darparwyr Dysgu yn awyddus i weithio gyda rheolwyr i wneud cymhwyster a fydd o fudd i'n busnes ac i'r cyflogai.

Lle nodir cymhwyster addas, gellir cynnwys hwn yn y Llwybr Gyrfa, naill ai o ran cwblhau'r cymhwyster cyn symud ymlaen mewn graddfa, neu gwblhau modiwlau penodol o fewn cymhwyster er mwyn symud ymlaen. Yn ddelfrydol, byddai Llwybr Gyrfa yn cyfuno cymwysterau a phrofiadau gwaith e.e. mae dilyniant o un raddfa i'r llall yn dibynnu ar gwblhau modiwlau penodol, a chyflawni tasgau penodol yn y gwaith. Gall rheolwyr hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogai ddilyn cyrsiau byr traddodiadol er mwyn diwallu anghenion y rôl derfynol.

Enghraifft:

Rhaid i Arolygydd Pontydd fod â chymwysterau mewn amrywiaeth o feysydd i gyflawni ei rôl lawn. Felly, fel rhan o'r Llwybr Gyrfa gallant ymgymryd â Fframwaith Adeiladu (sy'n para tua 15 mis), yn ogystal â Thystysgrif Gofod Cyfyngedig Lefel 2 City and Guilds (1-2 ddiwrnod).

Gall cymwysterau lluosog gael eu cynnwys mewn llwybr gyrfa, eich lle chi fel y rheolwr yw penderfynu beth sy'n ofynnol ar gyfer y rôl.

Nid oes rhaid i Lwybr Gyrfa gynnwys cymhwyster, mae'n dibynnu ar ofynion y swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen.

Cam 3 – Swydd-ddisgrifiadau

Rhaid cael swydd-ddisgrifiad Lefel Mynediad a swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen. Rhaid i'r ddau yma fynd drwy'r Broses Gwerthuso Swyddi (os nad ydynt eisoes wedi gwneud) a chael graddfa wedi'i chadarnhau ar gyfer pob un. Y Broses Gwerthuso Swyddi yw'r dull o werthuso holl swyddi'r cyngor er mwyn pennu'r raddfa deg ar gyfer y swydd honno. Gweler y Broses Cynnal a Chadw Gwerthuso Swyddi am fwy o fanylion.

Fel arfer, bydd gan reolwr swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen eisoes mewn grym, a dim ond y swydd-ddisgrifiad Lefel Mynediad sydd ei angen. Gellir adeiladu Llwybrau Gyrfa hefyd gan ddefnyddio swydd-ddisgrifiadau sy'n bodoli eisoes.

Enghraifft 1:

Gellir cynllunio Llwybr Gyrfa gan ddefnyddio swydd-ddisgrifiad generig Lefel 1 Swyddog Gweinyddu (graddfa 2) a swydd-ddisgrifiad Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd (graddfa 6). Mae'r swydd-ddisgrifiadau eisoes wedi'u gwerthuso felly ni fyddai angen eu hailwerthuso, a byddai'r Llwybr Gyrfa yn nodi'r meini prawf gofynnol a'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn i ddeiliad y swydd symud o raddfa 2 i 3, yna graddfa 3 i 4 ac yn y blaen hyd at raddfa 6.

Enghraifft 2:

Mae angen Llwybr Gyrfa gan ddefnyddio swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen Mecanig Graddfa 7. Mae'r rheolwr am ddechrau ar tua graddfa 4 a rhoi rhywun drwy'r cymhwyster a'r profiadau gofynnol. Nid oes swydd-ddisgrifiad ar gyfer y Lefel Mynediad ar hyn o bryd, felly mae'n rhaid i'r swydd-ddisgrifiad hwn fynd trwy'r broses gwerthuso swyddi. Nid oes angen i swydd-ddisgrifiad Mecanig Graddfa 7 fynd drwy'r broses gwerthuso swyddi.

Lle nad oes swydd-ddisgrifiad Lefel Mynediad eisoes wedi'i werthuso, bydd angen i chi greu un. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw edrych ar y meini prawf ar gyfer swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen. Yna gofynnwch i chi'ch hun, a allaf ddarparu'r cyfleoedd/cymorth i ddatblygu'r meini prawf hynny mewn rhywun? A oes cymhwyster y gallai rhywun ei gwblhau a all ddarparu'r meini prawf hanfodol? Byddech wedyn yn nodi'r holl feini prawf a thasgau y byddech yn eu hystyried y gellid eu darparu a'u datblygu drwy Llwybr Gyrfa, a rhoi'r swydd-ddisgrifiad hwnnw drwy'r broses gwerthuso swyddi.

Mae'n bwysig nodi yma, efallai y bydd angen diwygio dyletswyddau'r swydd-ddisgrifiad hefyd – gallai rhai barhau i fod yr un dyletswyddau, ond gan y byddai hon yn rôl ddatblygu, byddai llawer o dasgau bellach 'o dan gyfarwyddyd y rheolwr/cydweithwyr', neu 'i gefnogi cydweithwyr' ac ati.

Gweler yr enghraifft isod o sut y gellid diwygio swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen Graddfa 6 i gyrraedd swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen Graddfa 3 i adlewyrchu natur ddatblygu Llwybr Gyrfa:

Graddfa 6	Graddfa 3
<ul style="list-style-type: none">• Rhoi cyngor a chymorth i gwsmeriaid ar faterion cymhleth.	<ul style="list-style-type: none">• O dan gyfarwyddyd cydweithwyr, rhoi cyngor a chymorth i gwsmeriaid ar faterion sylyfaenol.
<ul style="list-style-type: none">• Cynnal gwaith ymchwil a pharatoi adroddiadau pwyllgor sy'n ymwneud â pholisïau a mentrau.	<ul style="list-style-type: none">• Cynorthwyo cydweithwyr i ymchwilio a pharatoi adroddiadau pwyllgor sy'n ymwneud â pholisïau a mentrau.
<ul style="list-style-type: none">• Adolygu perfformiad ariannol contractau a chytundebau, a rheoli'r broses dendro a chaffael yn ôl y gofyn.	<ul style="list-style-type: none">• Cynorthwyo'r tîm i adolygu perfformiad ariannol contractau a chytundebau yn achlysurol.
<ul style="list-style-type: none">• Bod yn arbenigwr yn eich maes, a rhoi cyngor proffesiynol i gwsmeriaid.	<ul style="list-style-type: none">• Bod yn rhagweithiol ynghylch ceisio cyfleoedd datblygu a dysgu, ymgymryd â DPP gyda'r bwriad o symud ymlaen yn y maes gwaith hwn.

Cam 4 – Llwybr Gyrfa

Y cam nesaf unwaith y bydd gennych eich dau swydd-ddisgrifiad, yw cynllunio'r Llwybr Gyrfa ei hun, pontio'r ddau swydd-ddisgrifiad gyda'i gilydd ac amlinellu pa feini prawf sydd angen eu bodloni er mwyn i rywun symud ymlaen mewn graddfa.

Bydd y Llwybr Gyrfa yn edrych fel hyn, ond gyda faint bynnag o golofnau sydd eu hangen arnoch (cofiwch, rhaid rhoi cyfrif am bob graddfa rhwng Lefel Mynediad a Lefel Gorffen yn y tabl Llwybr Gyrfa):

Unwaith y byddant yn y swydd, bydd deiliad y swydd yn symud ymlaen drwy'r graddfeydd wrth iddo ddatblygu ei sgiliau, ei wybodaeth, ei alluoedd ac ennill cymwysterau, yn unol â'r Llwybr Gyrfa isod.				
	Graddfa 6	Graddfa 7	Graddfa 8	Graddfa 9
	Teitl Swydd (ID xx)	Teitl Swydd	Teitl Swydd	Teitl Swydd (ID xx)
Cymwysterau				
Profiad Perthnasol				
Gwybodaeth a Sgiliau				
Rhinweddau Personol				
Unrhyw Ofynion / Gwybodaeth Arall				

Mae'r Llwybr Gyrfa yn seiliedig ar dempled Manylion am yr Unigolyn. Ni fydd angen diweddarau'r holl adrannau gyda phob graddfa, eich lle chi fel y rheolwr yw penderfynu beth fydd yn cael ei ddatblygu wrth iddynt symud ymlaen. Hynny yw, ai eu cymwysterau'n unig fydd yn wahanol ar bob graddfa? A fyddant yn datblygu sgiliau gwaith prosiect? A fyddant yn datblygu eu gwybodaeth yn y maes? A fydd disgwyl iddynt weithio'n fwy annibynnol a chymryd mwy o gyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar bob lefel?

Rhaid rhoi cyfrif am bob graddfa rhwng Lefel Mynediad a Gorffen a rhaid cael dilyniant ar bob lefel.

Dylai teitl y swydd fod yn wahanol ar gyfer pob graddfa er mwyn osgoi unrhyw ddryswch wrth symud ymlaen. Dylent fod yn berthnasol i deitl y swydd Lefel Gorffen. Ffordd hawdd o wneud hyn yw defnyddio'r derminoleg isod:

- *** Dan Hyfforddiant
- *** Cynorthwyol
- Lefel 1, Lefel 2, Lefel 3
- Uwch ***

Enghraifft:

- Mecanig Dan Hyfforddiant – Lefel 1 (Graddfa 3)
- Mecanig Dan Hyfforddiant – Lefel 2 (Graddfa 4)
- Mecanig Dan Hyfforddiant – Lefel 3 (Graddfa 5)
- Mecanig Cynorthwyol (Graddfa 6)
- Mecanig (Graddfa 7)

Cofiwch beidio â chynnwys

unrhyw feini prawf a allai fod yn wahaniaethol neu'n anfesuradwy megis:

- hyd gwasanaeth o fewn pob graddfa cyn symud ymlaen

- gofyn am drwydded yrru a char (mewn rhai achosion gellir cyfiawnhau hyn, siaradwch ag Adnoddau Dynol)
- synnwyr digrifwch

Cam 5 – Hysbysebu

Ar hyn o bryd bydd gennych dair dogfen ar waith; swydd-ddisgrifiadau Lefel Mynediad a Lefel Gorffen, a'r Llwybr Gyrfa. Byddwch hefyd yn gwybod a ydych yn defnyddio unrhyw gymwysterau i gefnogi hyn, ac a ydych yn canolbwyntio ar Lefel Mynediad neu Lefel Gorffen.

Hysbysebir Llwybrau Gyrfa gan ddefnyddio'r broses arferol, a byddwch chi fel y rheolwr yn penderfynu a fydd hyn yn cael ei hysbysebu'n fewnol yn gyntaf, neu a oes cyfiawnhad i hysbysebu'r cyfle hwn yn allanol ar unwaith.

Er mwyn hysbysebu, defnyddiwch y templed pecyn hysbysebu sy'n cynnwys y llwybr yn lle manylion am yr unigolyn. Anfonwch y pecyn swyddi gwag a'r Ffurflen Rheoli Swyddi Gwag at Adnoddau Dynol i'w hysbysebu yn unol â'n dulliau recriwtio arferol. Mae'r Ffurflen Rheoli Swyddi Gwag yn cynnwys adran ar gyfer Llwybrau Gyrfa:

Rhoi ystyriaeth i Llwybr Gyrfa			
Os nad oes modd i chi wneud lle ar gyfer safle Llwybr Gyrfa, siaradwch ag Adnoddau Dynol er mwyn datblygu tabl Llwybr Gyrfa gan ddefnyddio'r templed i gael eglurdeb ar symud trwy'r graddau. Os oes Llwybr Gyrfa wedi'i sefydlu eisoes, dylid ei atodi i'r Ffurflen Rheoli Swydd Wag a sicrhau y cynhwysir y tabl o fewn y pecyn hysbyseb.			
A yw'r swydd hon yn rhan o Llwybr Gyrfa?		<input type="checkbox"/> Ydi <input type="checkbox"/> Nac ydi	
Os YDI:	Teitl Swydd/Rhif Adnabod y safle cychwynnol: <input type="text"/>	Yn ddefnyddiol, a ydych yn gobeithio penodi unigolyn ar frig neu ar waelod y Llwybr Gyrfa?	<input type="checkbox"/> Brig y Llwybr <input type="checkbox"/> Gwaelod y Llwybr
Teitl Swydd/Rhif Adnabod y safle gorffen: <input type="text"/>			
Os YDI, a oes Fframwaith sydd yn darparu'r cymhwyster / profiad / sgiliau / cymwyseddau hanfodol? (Cysylltwch ag Adnoddau Dynol os ydych yn ansicr)			<input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes
Coleg/Darparwr Dysgu: <input type="text"/>	Enw'r Fframwaith: <input type="text"/>	Lefel cymhwyster: <input type="text"/>	


Os ydych yn gweithio gyda Darparwr Dysgu fel rhan o'r Llwybr Gyrfa, gallant hefyd hysbysebu hyn drwy eu sianeli nhw, felly cofiwch anfon copi atynt unwaith y bydd yr hysbyseb yn fyw.

Cam 6 – Lluio rhestr fer

Unwaith y bydd y swydd wag yn cau, bydd angen i chi lunio rhestr fer. Bydd sut rydych chi'n gwneud hyn yn dibynnu ar p'un a ydych chi'n canolbwyntio ar Lefel Mynediad neu Lefel Gorffen. Gan ddefnyddio'r matrices rhestr fer arferol, ewch drwy bob cais a llunio rhestr fer yn y ffordd arferol. Yr unig wahaniaeth yw pa feini prawf rydych chi'n eu defnyddio i wneud hyn.


Ffocws Lefel Mynediad

Os ydych yn gobeithio penodi rhywun ar ddechrau'r Llwybr Gyrfa, rydych yn blaenoriaethu'r ymgeiswyr hyn. Gan ddefnyddio'r meini prawf Lefel Mynediad ar y Llwybr Gyrfa (y meini prawf a restrir o dan y raddfa isaf), lluniwch restr fer yn y ffordd arferol. Os nad oes gennych ddigon o ymgeiswyr ar y lefel hon ac os hoffech ehangu eich dewis o gyfweiliadau, gallwch wedyn symud ymlaen i'r raddfa nesaf uwchlaw, a llunio rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf hynny. Rydych chi'n parhau i weithio eich ffordd i fyni'r graddfeydd nes i chi gael detholiad o gyfweiliadau da.



Ffocws Lefel Gorffen

Os ydych yn gobeithio penodi rhywun ar ddiwedd y Llwybr Gyrfa, rydych yn blaenoriaethu'r ymgeiswyr hyn. Gan ddefnyddio'r meini prawf Lefel Gorffen ar y Llwybr Gyrfa (y meini prawf a restrir o dan y raddfa uchaf), lluniwch restr fer yn y ffordd arferol. Os nad oes gennych ddigon o ymgeiswyr ar y lefel hon ac os hoffech ehangu eich dewis o gyfweiliadau, gallwch wedyn symud ymlaen i'r raddfa nesaf islaw, a llunio rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf hynny. Rydych chi'n parhau i weithio eich ffordd i lawr y graddfeydd nes i chi gael detholiad o gyfweiliadau da.



Unwaith y byddwch wedi cyrraedd y rhestr fer, mae'r dull arferol o recriwtio yn berthnasol – cyfweld a dethol. Cyfeiriwch at y Polisi Recriwtio a Dethol i gael rhagor o wybodaeth.

Cam 7 – Penodi

Ar ôl y broses recriwtio a dethol, dylech fod mewn sefyllfa i benodi ymgeisydd addas. Gwneir hyn drwy'r Ffurflen Benodi, yn union fel recriwtio arferol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi ar y ffurflen benodi mai rôl Llwybr Gyrfa yw hon, a'r raddfa gychwynnol yr ydych yn penodi'r ymgeisydd arni.

Eich penderfyniad chi fel y rheolwr yw pennu'r raddfa gywir yn unol â thystiolaeth o sgiliau, profiad, cymwysterau ac ati. Nid oes rhaid iddynt ddechrau ar y swydd-ddisgrifiad Lefel Mynediad na'r Lefel Gorffen – os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer graddfa ganol, dylid eu penodi fel y bo'n briodol.

Graddfa Cyflog: (Mae pob swydd yn dechrau ar scp isaf y Raddfa, ac eithrio lle y caniateir 1 cynyddiad yn unol â'r Polisi Cyflog, oni bai bod cyfiawnhad llawn yn cael ei nodi yn yr adran 'Manylion perthnasol eraill' isod. Bydd Staff Cyflenwi'n aros ar y scp isaf)	<input type="checkbox"/>	Nodyn cyflog (gradd gyrfa ac ati):	<input type="checkbox"/>
Unrhyw fanylion perthnasol eraill:	<input type="checkbox"/>		

Mae'n bwysig nodi ar y ffurflen benodi mai Llwybr Gyrfa yw hwn gan y bydd rhannau o Gontract Cyflogaeth y cyflogai yn ymwneud yn benodol â'u Llwybr Gyrfa.

Mae'r prosesau arferol yn berthnasol o ran penodi cyflogai ar raddfa; mae'r holl staff yn dechrau ar waelod y raddfa, oni bai bod eu cyflog presennol yn uwch a allai arwain at ddechrau ar gynyddiadau gwahanol o fewn y raddfa honno.

Yn ystod Llwybr Gyrfa

Bydd gweithwyr yn cael cymorth i ddatblygu yn unol â'r Llwybr Gyrfa. Mae'n bwysig cofio bod rhwymedigaeth gytundebol ar gyflogeion a benodir ar Lwybr Gyrfa i symud ymlaen, ac felly y dylid caniatáu amser mewn gwaith i gwblhau cymwysterau gorfodol a chyfleoedd datblygu. Cyfeiriwch at y Polisi Dysgu a Datblygu i gael rhagor o wybodaeth am yr amser a ganiateir ar gyfer cymwysterau a dysgu.

Rheoli perfformiad

Argymhellir bod o leiaf un amcan Llwybr Gyrfa penodol yn cael ei osod ar gyfer cyflogeion yn ystod eu gwaith rheoli perfformiad rheolaidd, a dylid trafod dilyniant/datblygiad ym mhob cyfarfod un i un.

Dilyniant

Pan fydd cyflogai wedi bodloni meini prawf y raddfa nesaf o fewn y Llwybr Gyrfa, dylai rheolwyr gwblhau'r adrannau perthnasol ar y Ffurflen Newid Contract a'i hanfon at Adnoddau Dynol. Os yw'r dilyniant yn dibynnu ar ennill cymhwyster, sicrhewch fod copi o'r dystysgrif hon hefyd yn cael ei anfon ynghyd â'r Ffurflen Newid Contract. Mae adran ar y Ffurflen Newid Contract yn benodol ar gyfer dilyniant Llwybr Gyrfa:

Adran Llwybr Gyrfa yn unig			
Graddfa Bresennol:	<input type="text"/>	Graddfa Newydd:	<input type="text"/>
Tystiolaeth/cyfiawnhad (darparwch resymau/tystiolaeth dros gefnogi'r ffurflen gais datblygu, gan ddefnyddio'r meini prawf Llwybrau Gyrfa):	<input type="text"/>		
Oes angen cwblhau cymhwyster ar gyfer y datblygiad hwn?	<<dewiswch>>	Teitl cymhwyster:	<input type="text"/>
Sefydliad/Darparwr Dysgu:	<input type="text"/>	Dyddiad cyflawni'r cymhwyster:	<input type="text"/>

Codiadau cyflog

Bydd codiadau cyflog yn unol â'r Polisi Cyflog, sy'n golygu na ellir cyflymu staff ar Lwybr Gyrfa drwy'r cynyddiadau o fewn graddfa. Bydd cynyddiadau'n cyd-fynd â thelerau ac amodau gweithwyr, a byddant yn digwydd yn unol â hyd y gwasanaeth. Unwaith y bydd y meini prawf ar gyfer y raddfa nesaf wedi'u cyflawni/dangos, bydd cyflogeion yn symud ymlaen i'r raddfa nesaf, gan ddechrau ar y cynyddiad isaf.

Cwblhau

Unwaith y bydd y cyflogai wedi bodloni'r meini prawf sy'n ofynnol ar gyfer y raddfa uchaf yn y Llwybr Gyrfa ac yn cyflawni rôl y swydd-ddisgrifiad Lefel Gorffen, caiff ei gadarnhau yn y swydd honno a bydd ei Lwybr Gyrfa wedi'i gwblhau.

Ymddiswyddiad

Os bydd gweithiwr yn ymddiswyddo o'i rôl ran o'r ffordd drwy Lwybr Gyrfa, bydd angen i reolwyr adolygu a yw unrhyw gysiau hyfforddi neu gyfleoedd datblygu wedi'u hariannu'n ariannol gan y cyngor. Os na fu unrhyw gostau gan y cyngor, bydd y broses adael arferol yn berthnasol (h.y. ffurflen gadael, cyfweliad gadael).

Fodd bynnag, os yw'r cyngor wedi mynd i gostau, o gwrs hyfforddi er enghraifft, yna efallai y bydd angen i'r cyflogai ad-dalu'r gost hon yn unol â'r Polisi Dysgu a Datblygu. Bydd hyn yn dibynnu ar faint o amser ers i'r gost gael ei hysgwyddo.

Diswyddo

Os yw rheolwr yn ystyried diswyddo drwy'r prosesau Adnoddau Dynol arferol (e.e. presenoldeb yn y gwaith, disgyblu), dylid ystyried a ydynt yn ymgymryd â chymhwyster fel rhan o'u Llwybr Gyrfa. Ar gyfer cyflogeion sy'n ymgymryd â Fframwaith, ceir deddfwriaeth ychwanegol sy'n cwmpasu 'prentisiaethau' y dylid ei hystyried. Bydd angen i reolwyr ystyried y math o gymhwyster, y cam y maent yn ei wneud o fewn eu cymhwyster, a'r cyfle i barhau â hyn gyda chyflogwr gwahanol. Cysylltwch â Adnoddau Dynol i gael cyngor os ydych yn ystyried diswyddo gweithiwr ar Lwybr Gyrfa.

Cofnodi cymwysterau a datblygiad

Mae adran ar iTrent yn Rheoli Pobl, a'r Hunanwasanaeth Gweithwyr lle gellir cofnodi dysgu a datblygu. Lle mae Fframwaith yn cael ei gynnal, mae'n bwysig cofnodi hyn ar iTrent fel y gall y cyngor gynhyrchu ystadegau ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y niferoedd a'r mathau

o gymwysterau sy'n cael eu dilyn. Gellir cofnodi'r rhain pan fydd y cyflogai yn cofrestru, a chaiff ei ddiweddarau unwaith y bydd wedi cwblhau'r cymhwyster. Gellir cofnodi cyrsiau byr a digwyddiadau DPP hefyd, naill ai gan reolwyr neu'r cyflogai os oes ganddynt fynediad i'w hunanwasanaeth.